

MAE ANGEN EICH HELP AR BETSI CADWALADYR!

Buasai bywyd anturiaethus Betsi Cadwaladyr wedi bod yn rhyfeddol yn unrhyw gyfnod, ond yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd yn wirioneddol anhygoel. Teithiodd hi o gwmpas y byd, a gweithiodd fel nyrs yn ysbyty'r fyddin yn Balaclava yn ystod Rhyfel y Crimea . Cyhoeddodd Honno ei hunangofiant yn y lle cyntaf yn 1986 ac fe gafodd ei gadw mewn print oddi ar hynny hyd nes y gwerthwyd y copïau olaf yn ddiweddar. Erbyn hyn mae Honno am gyhoeddi argraffiad newydd a fydd yn adfer elfennau pwysig o'r fersiwn wreiddiol ac yn ychwanegu deunydd newydd at ddefnydd darllenwyr a myfyrwyr o'r unfed ganrif ar hugain. Bydd yr argraffiad newydd yn cynnwys testun llawn o hanes bywyd Betsi, y rhagair am gefndir cymdeithasol a chrefyddol Betsi gan Jane Williams (a ysgrifennodd y naratif). Cedwir cyflwyniad cynhwysfawr Deirdre Beddoe, a'r llun o Betsi ym mlaen y llyfr, o argraffiad cynharach Honno. Bydd yr argraffiad newydd hefyd yn adfer y rhagair gan Jane Williams sydd yn disgrifio sut yr oedd hi a Betsi wedi cydweithio ar y naratif. Ceir hefyd nodiadau i egluro'r cyfeiriadau at ddigwyddiadau a phobl o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i ddarllenwyr cyfoes. Bydd yr argraffiad newydd yn adlewyrchu pwysigrwydd Betsi yn hanes merched Cymru.



Yn anffodus, bydd yr argraffiad newydd yn golygu costau ychwanegol: cysodi'r testun newydd, cynhyrchu'r clawr newydd, a phrosesau argraffu a rhwymo. Mae Honno yn bwriadu cynhyrchu 1,000 o gopïau, a bydd cost yr argraffiad newydd yn £2,500. Ariennir Honno i'r pwrpas o gyhoeddi llyfrau newydd yn unig, a dyna pam rydyn ni'n apelio ar hyn o bryd am help i ariannu'r argraffiad newydd hwn. Bydd enw pob un sy'n cyfrannu £10 neu fwy yn cael ei gynnwys yn y llyfr. (Defnyddir unrhyw arian dros £2,500 ar gyfer ailargraffu llyfrau eraill yn y gyfres 'Clasuron Honno'). Gellir gwneud rhoddion trwy wefan www.honno.co.uk neu trwy ysgrifennu siec i Honno a'i hanfon at : Honno, Uned 14, Unedau Creadigol, Canolfan y Celfyddydau, Campws Penglais, Aberystwyth SY23 3GL (Ysgrifennwch 'Betsi Cadwaladyr' ar yr amlen, os gwelwch yn dda), Gyda'n gilydd, gallwn hwyluso'r broses o wneud stori Cymraes ddewr, anturiaethus a hollol unigryw o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn fwy cyfarwydd i ddarllenwyr heddiw.

Gwyneth Tyson Roberts (ar ran Pwyllgor Gwasg Honno)

ARCHIF MENYWOD CYMRU YN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU, SIR GÂR, 2014

Yn dilyn llwyddiant digamsyniol digwyddiadau'r Archif yn Eisteddfodau Cenedlaethol Bro Morgannwg yn 2012 a Dinbych yn 2013, rydym wedi penderfynu mentro i gynnal darlith unwaith eto eleni. Ein thema fydd 'Lleisiau o Lawr y Ffatri', sef hanes sefydlu a rhedeg prosiect hanes llafar menywod fu'n gweithio mewn ffatrioedd gweithgynhyrchu yng Nghymru wedi'r Ail Ryfel Byd, gan ganolbwyntio ar weithwyr yn ffatrioedd Sir Gâr. Susan Roberts, Swyddog Maes y de-orllewin, fydd yn traddodi, ac mae hi eisoes wedi recordio atgofion menywod fu'n gweithio yn gwneud batris a chlorid ym Mhonthenri, picls ym Mhorth Tywyn, coleri cŵn yng Ngwynfe, dillad Slimma a Dewhirst yn Llanymddyfri, Abergwaun a Llanbedr pont Steffan, mewn ffatrioedd ceir yn Llanelli a lluo nwyddau eraill. Bydd rhai o'r menywod hwyliog y bu'n eu holi'n ymuno â hi i sôn am eu gwaith yn y ffatrioedd hyn ac am agweddau economaidd a chymdeithasol y profiadau hynny.

Felly, dewch yn lluo i glywed rhagor am gynnyrch y prosiect rhyfeddol hwn. Cynhelir y digwyddiad ar **ddydd Gwener 8fed Awst am 12.30. y.h. ym Mhabell y Cymdeithasau 2.** Croeso i bawb.

LLONGYFARCHIADAU

.... i Helen Molyneux, nith sylfaenydd yr Archif, Ursula Masson, a noddwraig darlith flynyddol Diwrnod Rhyngwladol y Menywod er cof am ei modryb. Hi yw Cadeirydd newydd y Sefydliad Materion Cymreig (IWA). Hefyd gwahoddwyd aelod o bwyllogor AMC a'i chyfieithydd, Catrin Stevens, i fod yn Gadeirydd newydd Menter Treftadaeth yr Ysgolion Cymreig.

LLEISIAU O LAWR Y FFATRI – Y NEWYDDION DIWEDDARAF

Bellach mae'r prosiect hwn, a ariannwyd trwy grant Cronfa Treftadaeth y Loteri, yn carlamu yn ei flaen yn hynod effeithiol. Yn ystod y tri mis diwethaf mae'n Swyddogion Maes: Catrin yn y de-ddwyrain, Susan yn y de-orllewin a Kate yn y canolbarth a'r gogledd wedi recordio tua 68 o'r 150 cyfweiliad arfaethedig ac wedi sganio rhyw 200 o ffotograffau a dogfennau yn ymwneud â'r thema. At hyn mae cyrsiau hyfforddi i 16 o wirfoddolwyr wedi'u cynnal yn y de-orllewin a'r de-ddwyrain ac mae'r gwirfoddolwyr hwythau wedi bod wrthi'n eu tro yn recordio tua 15 o gyfweiliadau, o'r 50 a fwriadwyd yn ôl y cynllun gwreiddiol.

Ond er mor ddifyr ydy'r ystadegau hyn, dydyn nhw ddim yn cyffwrdd â gwir hanfod y prosiect diddorol hwn, sef creu cyfle i recordio lleisiau'r menywod bywiog a llafar fu'n gweithio mewn ffatrioedd diwydiant ysgafn ledled Cymru rhwng 1945 ac 1975. Yn y lle cyntaf mae amrywiaeth y ffatrioedd a adnabuwyd yn rhyfeddol - o'r rhai mawr disgwylidig fel Hotpoint (Llandudno), Hoover (Merthyr Tudful), Polykoffs (y Rhondda) a Mettoys (Abertawe) i rai llai eu maint yn cynhyrchu coleri cŵn yng Ngwynfe, Sir Gâr; menig yn Llantrisant; corsedau yng Nghaernarfon a dilladach eraill o bob lliw a llun.

Ac mae'r menywod a holwyd yn barod iawn i adrodd eu hanesion, gan sôn am ddylanwad (neu ddiffyg dylanwad) undebau llafur; y triciau a chwaraeid ar ferched newydd; pryfocio a phoeni'r dynion; mân-ladrata'r cynnyrch, a'r llu o weithgareddau hamdden yn gysylltiedig â'r gwaith. Soniodd un siaradwraig ym Mettoys am agwedd negyddol y rheolwyr at y gweithwyr a siaradai Gymraeg wrth eu gwaith; tra mai Cymraeg oedd iaith mwyafrif gweithwyr ffatri 'Tic Toc' Ystradgynlais ac mai'r ffaith hon oedd yn gwneud y ffatri yn lle mor gartrefol.



'Megan Bach', goruchwylwraig yn ffatri Kay's Compacts, Caernarfon, ddechrau'r 60au.

Ymddengys wedyn bod agweddau gwahanol at undebaeth llafur yn dibynnu ar ble roedd y ffatri. Doedd gweithwyr ffatrioedd Caerdydd, ac Abertawe i raddau hefyd, ddim mor gefnogol i'r undeb ond yn y cymoedd roedd y gri 'Everybody out' yn un gyffredin os oedd unrhyw beth wedi tramgwyddo'r gweithwyr.

Ar hyn o bryd mae'n rhy fuan i ddod i gasgliadau dibynadwy am yr hyn a gasglwyd, ond mae'r ymateb o'r cyfweleion, yr holwyr ac yn sicr y gwirfoddolwyr wedi bod yn gadarnhaol dros ben. Yn ôl un gwirfoddolwraig, 'Bu'n bleser recordio Mrs _____ a chael cyfrannu at brosiect mor glodwiw. Roedd hi mor falch fod rhywun o'r diwedd yn gwerthfawrogi'r



Ann Davies (née Williams) yn ffatri Freeman's Cigar s, Caerdydd

cyfraniad wnaeth hi i'r economi trwy'i gwaith yn y ffatri a bod y profiadau hyn yn mynd i fod ar gof a chadw.'

CYFARFOD AMC AR Y CYD Â LLAFUR

Cynhelir diwrnod astudiaethau ar y cyd â Llafur yng Nghanolfan Bloomfield, Arberth, ar ddydd Sadwrn, 17 Mai 2014. Bydd yn para diwrnod cyfan, gan gynnwys cinio, a bydd siaradwyr yno yn cynrychioli Llafur ac AMC.

CYNHADLEDD 2014

Cynhelir ein Cynhadledd eleni ym Mhrifysgol Bangor ar benwythnos y 4ydd a'r 5ed o Hydref 2014. Bydd yr adran Astudiaethau Menywod yn y Brifysgol yn dathlu 20 mlynedd o fodolaeth, ac felly bydd Bangor yn lleoliad addas iawn.

Mae'r cynlluniau ar y gweill, a cheir rhagor o fanylion yn fuan.



Croesewir cyfraniadau i'r Cylchlythyr gan bob aelod. Os gellwch chi ysgrifennu'n ddwyieithog byddem yn gwerthfawrogi hynny'n fawr. Anfonwch eich cyfraniadau at: newsletter@womensarchive.wales.org os gwelwch yn dda

**Dyddiad copi i'r rhifyn nesaf
Dydd Gwener 16^{eg} Mai 2014**

Golygwyd y Cylchlythyr hwn gan Caroline Fairclough, a'i gyfieithu gan Catrin Stevens.

HANESION AM FFERYLLWYR BENYWAIDD

Cafodd yr erthygl hon ei hysgogi gan ffrind yn anfon dau ddarn o wybodaeth ataf: rhestr o fferyllwyr benywaidd yn 1869, a hanes, trwy Amgueddfa Dinbych-y-pysgod, perchennog diweddaraf Medical Hall yn y dref honno.

Mae menywod wrth gwrs wedi ymwneud yn draddodiadol â chynhyrchu a gweini meddyginiaethau ers y cyfnod cynnar, ac yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu fel gofalwyr mewn teulu a chymuned. Yn ystod y 19eg ganrif, pan ddechreuwyd sefydliadu'r galwedigaethau amrywiol, y datblygodd gwrthwynebiad i rôl menywod yn y gwahanol ganghennau o feddygaeth. Yn unol â Deddf Fferylliaeth 1868 roedd gofyn i bob fferylllydd gweithredol gofrestru gyda'r Royal Pharmaceutical Society. Yn 1869 dengys y gofrestr gyntaf fod 223 o fferyllwyr benywaidd yn y DU: roedd fferyllwyr benywaidd felly yn cynrychioli 1.9% o holl gofrestrïadau 1869.

Yn y blynyddoedd canlynol dioddefon nhw lawer o elyniaeth a chawsant eu gwatwar. Er enghraifft:



Vera Hughes (ar y dde) gyda fferyllwraig arall, yn Ysbyty Abertawe mae'n debyg, ddechrau'r 1920au

*"I could not bear to see their hands as soft as alabaster
Begrimed all o'er with dirty pill and nasty smelling plaster
Oh! May I never see them with their chignons in confusion
Attempt to shake the tinctures or prepare the cold infusion.
How could they climb the shaky steps to clean the bottles dusty,
Or go below amongst the wets into the cellar musty?
Their sleek round arms were never made to work the iron mortar,
But some opine they might assist to cut the salary shorter."*

The Pharmaceutical Journal, 1 Mawrth 1873

Caniateid i fenywod sefyll arholiadau'r Royal Pharmaceutical Society gyda'r dynion, a chaent weithio fel fferyllwyr, ond ni chaent *ymuno* â'r gymdeithas, ac felly nid oedd ganddynt unrhyw ddylanwad ar reoleiddio'u proffesiwn. Ni chawsant weithio yn Labordy Gemeg y gymdeithas tan 1877. Eto'i gyd cynyddodd nifer y fferyllwyr benywaidd cofrestredig; gweithiai llawer fel cynorthwyyr mewn fferyllfeydd ac fel dosbarthwyr mewn ysbytai.

Yn 1905 sefydlwyd yr Association of Women Pharmacists. Ei nod oedd:

- Trafod cwestiynau yn ymwneud â chyflogi menywod.
- Sefydlu cofrestr locwm.
- Sefydlu cofrestr o'r holl fferyllwyr benywaidd.
- Darparu system i gefnogi fferyllwyr benywaidd.

Parhawyd i arddel yr amcanion hyn gydol yr 20fed ganrif.

(Am wybodaeth bellach, gweler www.rpharms.com/celebrating-women-in-pharmacy)

Yn ôl yr *Englishwoman's Year Book* 1909** 'Mae cyflogi menywod fel dosbarthwyr yn llawer mwy arferol na chynt, a chydnyddir bellach y gall menywod, o'u hyfforddi'n iawn, fod yn fferyllwyr a dosbarthwyr effeithiol.' Cyfeiriad yr *Association of Women Pharmacists* ar y pryd oedd Gordon Hall, Gordon Square, Llundain W C. Am nawddoglyd!

O'r 223 a gofrestrwyd yn 1869, gweithiai 17 o'r menywod hyn yng Nghymru:

Ann Chinn, 202 Bute Road, Caerdydd.
Anne Coleman, 7 High Street, Caerdydd.
Mary Davies, Porthaethwy, Sir Fôn.
Rachel Davies, Ro-wen, ger Conwy.
Mary Hale, Aberhonddu.
Mary Ann Harris, Crughywel, Sir Frycheiniog.
Anne Hicks, Tyddewi, Sir Benfro.
Jane Jones, Llanidloes, Sir Drefaldwyn.
Margaret Jones, Llandinorwig, Sir Gaernarfon.

Eleanor Lewis, Aberdare.
Margaret Roberts, Caergybi, Sir Fôn
Ann Lewis, Bodedern, Sir Fôn.
Mary Ann Owen, Caernarfon
Sarah Pearson, Rhosllanerchrugog, Sir Ddinbych
Sarah Jones, Stryd Fawr, Y Drenewydd
Mary Lloyd Jones, Llanelwy, Sir Fflint.
Anne Irene Price, Dunraven Pl., Penybont-ar-Ogwr

Fferyllfa a sefydlwyd yn Ninbych y pysgod yn 1730 oedd y MEDICAL HALL. Yn 1945 etifeddodd Enid Chilton, fferylllydd hyfforddedig, y busnes gan ei thad. Rhedodd hi'r busnes ei hun tan 1963, pan ymunodd partner â hi. Bu farw yn 1980.

(**Diolch i Caroline Fairclough am y dyfyniad hwn, ac i Gareth Evans am y rhestr o fferyllwyr benywaidd a gwytwyd am Medical Hall.)

Jenny Sabine.

CROESO I ARCHIF MENYWOD CYMRU YN Y SENEDD, 19 CHWEFROR 2014

Mae Christine Chapman, AC, wedi cefnogi'r Archif ers blynnyddoedd, a thrwyddi hi cawsom gyfle i arddangos gwaith yr Archif yn y Senedd, a thynnu sylw ACau ac aelodau'r cyhoedd hefyd i'n prosiect newydd, *Lleisiau o Lawr y Ffatri*. Gwahoddwyd nifer o aelodau a chefnogwyr AMC/WAW i'r digwyddiad.

19 Chwefror oedd y diwrnod mawr, ac erbyn 11.45yb roedd y cyfan yn barod, a chynulleidfada dda wedi ymgynnull. Hyfryd oedd gweld hen ffrindiau a gefnogodd yr Archif o'r cychwyn, a wynebaw newydd. Dyma'r tro cyntaf i gynrychiolwyr o'r NUT, Merched y Wawr, Sefydliad y Merched a nifer o sefydliadau eraill ymuno â ni, ond nid y tro olaf, gobeithio: rhannwn gynerfwr o'r un amcanion.

Cawsom gyfle i bori trwy ddeunyddiau o gasgliadau AMC/WAW, ac ystod o wybodaeth am waith yr Archif, i gwrdd â ffrindiau hen a newydd, a gwleda ar y danteithion a ddarparwyd ar ein cyfer, gan gynnwys pice ar y maen a bisgedi 'premiwm'!

Croesawodd Christine Chapman bawb, a rhoddodd werthfawrogiad meistrolgar o waith yr Archif a'i gyfraniad i ddiwylliant a hanes Cymru. Mae Christine yn cyfuno ei diddordebau gwleidyddol ac academiaidd yn ddeheuig iawn, ac yn eu cyfleu mewn ffordd ymarferol a diymhongar.

Diolchodd Jenny, ein Cadeirydd, i Christine a'r lleill a gyfrannodd i'r digwyddiad, gan dalu teyrnged i gefnogaeth Cronfa Treftadaeth y Loteri i'n prosiect cynharach – y Sioeau ar Daith ac i'n prosiect hanes llafar cyfredol. Yna rhoddodd Catrin Stevens amlinelliad bywiog o'r prosiect newydd, *Lleisiau o Lawr y Ffatri*, gan awgrymu'r cyfoeth o brofiadau gwahanol o bob rhan o Gymru sydd yn aros i rywun eu cofnodi. Da iawn wedyn oedd cael clywed am gefnogaeth Cronfa Treftadaeth y Loteri i'r prosiect arloesol hwn, ac roedd brwdfrydedd heintus swyddog grantiau'r Gronfa, Rebecca Reitsis, dros y gwaith yn amlwg i bawb a'i clywodd.

Ond i fi, yr araith olaf oedd yr araith orau, pan atgoffodd ein Llywydd, yr Athro Emeritws Deirdre Beddoe, y gwrandawyr o'r angen i gofnodi ac i gadw ar gof gyfraniadau a phrofiadau menywod Cymru, o bob oes a chefnidir. Mae hi'n dal mor frwd ag erioed dros hanes a hawliau menywod, mor huawdl ag erioed wrth berswadio ac ysbrydoli. Braint yw gwrando arni, ac rwy'n siwr nad fi oedd yr unig un i adael y Senedd y diwrnod hwnnw gyda'r bwriad o fynd ati ar unwaith i sicrhau dyfodol i orffennol menywod yng Nghymru.

Elin Jones

RHODD I'R ARCHIF: 'LAND OF OUR MOTHERS'

Bydd nifer o aelodau'r Archif yn cofio'r gyfres lwyddiannus hon, a ddarlledwyd gan y BBC yn 2008. Wedi'r cyfan, cyfrannodd nifer o'n haelodau iddi, gan gynnwys yr Athro Deirdre Beddoe, ein Llywydd. Cyflwynodd 'Land of Our Mothers' hanes menywod yng Nghymru yn ystod y 150 blynedd ddiwethaf, a hynny mewn dull clir a dadlennol. Cafodd y gyfres gyfan, a gyflwynwyd gan Tanni Grey-Thompson, groeso brwd gan gynulleidfada eang.

Mae'r Archif yn ddiolchgar iawn i Carolyn Hitt, cynhyrchydd y gyfres, am roi copïau cyflawn i ni o'r rhaglenni i gyd, a hefyd o nifer o'r cyfweiliadau gwreiddiol fu'n sail iddynt. Dyma adnodd gwerthfawr iawn i'r Archif, ac i haneswyr y dyfodol, am ei fod yn olrhain ein hanes mewn ffordd mor apelgar, a hefyd am ei fod yn rhoi trosolwg ar ddechrau'r ganrif hon o rôl a statws menywod yn ystod y ganrif ddiwethaf.

Mae llawer o ohonom yn mwynhau erthyglau Carolyn yn y *Western Mail*, ac yn gwerthfawrogi ei pharodwydd i dalu sylw teilwng i gyfraniadau menywod i fywyd cyfoes yng Nghymru. Mae hi hefyd wedi cynhyrchu nifer o gyfresi i Radio Wales, a llawer ohonynt yn ymwneud â hanes menywod. Dymunwn yn dda iawn iddi wrth iddi sefydlu cwmni cynhyrchu newydd, cwmni 'Parasol', ac edrychwn ymlaen at weld – a chlywed – rhagor o raglenni difyr fydd yn rhoi sylw i hanes menywod yng Nghymru.

COFIO MENYWOD AR GOFEBAU RHYFEL

Fel rhan o waith yr Archif yn cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf rydym wedi dechrau basdata yn casglu enwau a manylion menywod a gofnodir ar gofobau rhyfel a chofebau eraill. Mae siroedd Dyfed gynt wedi gwneud dechrau da arni diolch i'r wefan ragorol <http://www.wawmp.co.uk/ceredigion>, ac mae gennym rai cofnodion eraill braidd yn wasgaredig. Os dewch chi ar draws cofebau tebyg byddem yn ddiolchgar i gael manylion – enw, lleoliad a ffotograff. Anfonwch nhw os gwelwch yn dda at caroline.fairclough@yahoo.co.uk. Os bydd hi'n bosibl, ychwnageir y ffotograffau at ein tudalennau Flickr sydd i'w gweld ar wefan AMC/ WAW.



Christine Chapman AC yn y digwyddiad yn y Senedd